# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
**Swyddfa'r Cyngor**
**CAERNARFON**
**Gwynedd**
**LL55 1SH**

At: Aelodau'r Cabinet 02/05/2019

Annwyl Aelod,

**CABINET – 7 MAI 2019**
**PAPURAU YCHWANEGOL**

Atodaf bapurau ychwanegol yng nghyswllt yr eitemau isod:-

**6. STRATEGAETH TOILEDAU CYHOEDDUS** 2
***Cyng. Catrin Wager***

Yn gywir,

*Annes Sion*
**Swyddog Cefnogi Aelodau**

**Pâr: Ychwanegiad at Canlyniadau Ymgynghoriad Strategaeth Ddrafft**

Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Ddrafft yn agored rhwng 11 Chwefror 2019 a 1 Mai 2019. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd yr ymgynghoriad wedi cau. Yn unol ar addewid i ddarparu gwybodaeth bellach a diweddariad ar yr adroddiad cyn y cyfarfod ac ar unrhyw ymatebion ychwanegol a dderbynnir, cadarnhaf y canlynol:

Fe gafwyd 132 o atebwyr i'r holiadur, 10 yn fwy nag ar adeg ysgrifennwyd yr adroddiad cabinet. Nid yw'r atebion ychwanegol na sylwadau ynglŷn â'r amcanion a dderbynnir yn effeithio ar y cyfeiriad a argymhellir. Nid ydynt chwaith yn effeithio na newid ein hasesiad Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015).

Crynodeb o Ganlyniadau'r Ymgynghoriad ar y Strategaeth Drafft diwygiedig:
Gofynnwyd i'r atebwyr os oeddent yn Cytuno, Anghytuno gydag amcanion y Strategaeth Toiledau Lleol.
Nododd:

- **97.7** % 97.5% eu bod yn Cytuno gydag amcan 'Darpariaeth o gyfleusterau glân, diogel wedi eu cynnal yn briodol'
- **92.42%** 94.5% eu bod yn Cytuno gydag amcan 'Uchafu'r argaeledd toiledau drwy bartneriaeth gyda'r Cyngor a darpariaeth arall'
- **89.39%** 89.3% eu bod yn Cytuno gydag amcan 'Hysbysu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill'
- **95.45%** 95.1% eu bod yn Cytuno gydag amcan 'Cyfleusterau sy'n hawdd dod o hyd iddynt gydag arwyddion cyfeirio da ac arwyddion gwybodaeth cyfleusterau unigol'
- **78.03%** 77.9% eu bod yn Cytuno gydag amcan 'Asesu argaeledd a dosbarthiad cyfleusterau yn seiliedig ar alw'
- **68.94%** 68.9% eu bod yn Cytuno gydag amcan 'Darpariaeth addas o fewn y gyllideb sydd ar gael'

Derbyniwyd sylw ychwanegol sy'n addasu'r ffigyrau yn rhan 2.7, Atodiad 4.

| | |
|---|---|
| Bwysig cadw gymaint o doiledau ar agor â phosib, mewn lleoliadau addas - dim rhy bell o'u gilydd, ac mewn lleoliadau gwledig, enwedig i rai y mae teithio yn ran o'u gwaith | 12 11 |
| Sicrhau bod darpariaeth ar gael drwy'r flwyddyn i bobl lleol a thwristiaid, does dim digon ar hyn o bryd | 9 8 |